


# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

Annwyl Riant/ Warchodwr,

Pori Drwy Stori- Sialens Rhigymau

Mae Pori Drwy Stori yn rhaglen ddwyieithog newydd a chyffrous wedi'i hanelu at gefnogi llythrennedd plant y dosbarth Derbyn. Mae'r rhaglen yn darparu adnoddau i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth a chartref gan annog rhieni i barhau â'u rôl hanfodol fel partneriaid wrth ddysgu eu plant. Cafodd y rhaglen ei chynllunio a'i chyflwyno gan Booktrust Cymru ac fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae tair prif elfen i'r rhaglen, un elfen ar gyfer pob un o dymhorau'r ysgol; mae pob elfen yn cynnwys cyfres o adnoddau a gaiff eu hanfon i ysgolion, i'w defnyddio yn y dosbarth ac i'w hanfon gartref i rieni eu defnyddio gyda'u plant gartref. Y tymor hwn, y ffocws yw'r Sialens Rhigwm(the Rhyme Challenge), a'r nod yw i feithrin hoffter o farddoniaeth a rhigymau gynnar gan hyrwyddo manteision dysgu gyda'ch plentyn. Mae'r pecyn amgaeedig yn cynnwys llythyr o esboniad a phoster A4 o'r rhigymau Cymraeg a'r bwriad yw i fwrw ati i ddysgu'r rhigymau gyda'n gilydd yn y dosbarth.

Fel mae'n digwydd rydym eisoes wedi dysgu yn y dosbarthiadau pedwar o'r rhigymau, ond gan fod nifer ohonynt yn rhai traddodiadol yn aml mae pobl yn dysgu geiriau gwahanol i'w gilydd! Byddwn felly yn dilyn geiriau'r rhigymau ar y daflen. Mae yna wefan i gyd-fynd â'r pecyn sef www.poridrwystori.org.uk ( neu fe allwch chi gysylltu â'r wefan drwy wefan yr ysgol- dosbarth Derbyn). Mae'r wefan yn adnodd ardderchog gyda gweithgareddau darllen o bob math yn y Gymraeg a'r Saesneg; syniadau am lyfrau a llyfrau rhyngweithiol. Ar hyn o bryd mae'r rhigymau awdio Saesneg yno ond nid y rhai Cymraeg(byddaf yn eich hysbysu pan fo'r rhigymau awdio Cymraeg wedi eu llwytho). Y rhigwm cyntaf i ni edrych arno fydd 'Dau gi bach' (Two Little Dogs). Mae'r plant eisoes wedi dysgu'r bennill gyntaf ond mae'r ail bennill i'w dysgu hefyd. Gan nad yw'r geiriau wedi eu llwytho eto ar 'Pori drwy stori' gallwch ddod o hyd iddynt ar wefan NGFL www.ngfl-cymru.org.uk o dan Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu- Hwiangerddi.

Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad,

Rhian Sennitt